Dyddiad cyhoeddi: 19 Mai 2017

Cyfrifon Llenyddiaeth Cymru

Rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch neges e-bost dyddiedig 26 Ebrill 2017 lle y gwnaethoch ofyn am y wybodaeth ganlynol:

1. **p'un a yw statws Llenyddiaeth Cymru wedi newid; a**
2. **tabl yn manylu ar yr holl ysgoloriaethau i awduron a ddyfarnwyd ers 2011, yr holl lyfrau a gyhoeddwyd gan dderbynwyr y dyfarniadau, a lefel gwerthiannau pob teitl.**

Gwnaethoch hefyd ofyn i ni gynnal ymchwiliad i'r graddau y caiff cyllid Yr Academi Gymreig ei gyfuno â chyllid Llenyddiaeth Cymru.

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth o'r fath. Er mwyn egluro, nid Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd Llenyddiaeth Cymru.

Efallai y byddai'n briodol i chi gysylltu â Llenyddiaeth Cymru i drafod ei statws ac er mwyn cael gwybodaeth am ysgoloriaethau.

O ran ymchwilio i'r graddau y caiff cyllid yr Academi Gymreig ei gyfuno â chyllid Llenyddiaeth Cymru, gan nad ni yw archwilwyr Llenyddiaeth Cymru na'r Academi Gymreig, ymddengys nad yw'r mater hwn yn rhan o'n cylch gwaith. Pa un bynnag, nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y ffordd y caiff ffioedd aelodaeth eu defnyddio na'u clustnodi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch neges e-bost i martin.peters@archwilio,cymru.

Yn gywir,